

Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

Translation Req'd

Dyma'r cynllun gweithredu cymdogaeth i ardal Penarth. Mae nifer o ysgolion yn ardal Penarth, Ysgol Gyfun Stanwell, Ysgol Gyfun St Cyres, Ysgol Gynradd Albert, Ysgol Pen-y-Garth, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Gynradd Victoria, Ysgol Gynradd Fairfield, Ysgol Gynradd Llandochau, Ysgol Gynradd Cogan, Ysgol y Deri ac Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph.

Mae Penarth yn gartref i ganolfan siopa brysur. Mae'r ardal yn gartref i rwydwaith bysiau da ynghyd â gorsaf reilffordd Penarth a gorsaf reilffordd Cogan.



Mae Cogan hefyd yn gartref i ganolfan hamdden yr ardal. Hefyd mae llyfrgell ym Mhenarth.

Mae'r cynllun tai gwarchod sy'n eiddo i'r Cyngor, Tŷ Redlands & Redlands Avenue, wedi'i leoli ym Mhenarth, sy'n gartref i breswylwyr 55+ oed yn Redlands Avenue a 60+ oed yn Nhŷ Redlands. Mae gan Dŷ Redlands ardal gymunedol, a ddefnyddir i gynnal nifer o weithgareddau i'r preswylwyr a'r gymuned leol. Mae gan Dŷ Redlands 'ystafell driniaeth' i breswylwyr lleol ei mynychu i gael triniaeth feddygol yn y gymuned. O fewn Cynllun Tŷ Redlands, mae dwy ystafell 'gofal llai dwys' hefyd, sy'n cynorthwyo'r rhai na allant ddychwelyd adref ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Gallant ddefnyddio'r ystafelloedd hyn nes bod addasiadau wedi eu gwneud i'w cartref neu fod llety addas ar gael.

Ffeil ffeithiau cymdogaeth

Mae 457 o eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn ardal Penarth, 27 eiddo lesdaliadol a 75 garej.

Mae 218 o dai, 149 o fflatiau, 9 fflat deulawr a 2 fflat stiwdio. Hefyd, mae 21 fflat stiwdio ar gyfer pobl hŷn, 63 o fflatiau ac 17 byngalo gan gynnwys y cynllun tai gwarchod yn Nhŷ Redlands. Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd rhwng 1945 a 1974.



Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?

Beth yw ei nodau?



Mae Cynllun Cymdogaeth Penarth yn nodi ystod o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystad. Mae'r Cynllun yn ystyried ystod eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.

Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

Diogelwch cymunedol	<p>Roedd 60% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n debyg i gyfartaledd y Fro o 58%.</p> <p>Mae cymdogion swnllyd yn achosi pryder i nifer yn yr ardal, gyda 46% o'r tenantiaid yn nodi bod hon yn broblem, yn uwch na chyfartaledd y Fro o 35%.</p> <p>Nid oedd defnyddio cyffuriau yn cael ei ystyried yn broblem, gyda dim ond 29% o denantiaid yn adrodd ei bod yn broblem fawr, sydd ond ychydig yn uwch na chyfartaledd y Fro o 26%.</p> <p>Mewn arwlwg tenantiaid diweddar, nododd 82% o'r tenantiaid eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn byw yn yr ardal.</p> <p>"Cymdogion tawel, da"</p>
Cyswllt â chwsmeriaid	<p>Dyweddodd 76% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlent bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol</p> <p>Roedd 62% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn (cyfartaledd y Fro yw 65%).</p> <p>Cadarnhaodd 73% o denantiaid eu bod yn adnabod y Tîm Cymdogaeth i'r ardal.</p>
Galw am gartrefi	<p>Mae galw da iawn am gartrefi yn yr ardal hon gyda 90 ymgeisydd ar gyfartaledd yn cynnig am eiddo pan fyddant yn cael eu hysbysebu ar gyfer eu hailosod.</p> <p>"Cymdogion hyfryd"</p> <p>"Eiddo mawr"</p>
Mynediad at wasanaethau	<p>Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws a thrên yn yr ardal sy'n rhoi mynediad hawdd i ganol y dref, Y Barri a Chaerdydd.</p> <p>Mae nifer o ysgolion uwchradd a chynradd yn yr ardal.</p> <p>"Lleoliad da"</p>
Ôl-ddyledion rhent	<p>Dywed 91% o denantiaid yr ardal fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian.</p> <p>Mae 29% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sydd ychydig yn is na chyfartaledd y Fro o 31%.</p>
Atgyweirio	<p>Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod.</p> <p>Roedd 80% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 79% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym.</p>
Cyflogaeth	<p>Mae gan y gymdogaeth lefelau cyflogaeth is na'r cyfartaledd o'i chymharu â chymdogaethau eraill ym Mhenarth. Mae hyn yn dangos bod rhai pobl yn y gymdogaeth yn cael anhawster i gael mynediad i'r farchnad swyddi ac efallai nad ydynt yn gymwys iawn ar gyfer y swyddi sydd ar gael.</p>

Gwybodaeth allweddol i'r gymuned (parhad)

<p>Incwm yr aelwyd</p>	<p>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddi-dded effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd. Mae 36% o denantiaid â pheth dealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt.</p>
<p>Trosiant eiddo</p>	<p>Daeth 45 eiddo yn wag y llynedd sydd oddeutu 10% o'r stoc dai yn yr ardal.</p>
<p>Tenantiaid gweithgar</p>	<p>Mae grŵp preswylwyr gweithredol, STAR, sy'n cwmpasu ardaloedd St Luke's a St Paul's ym Mhenarth. Mae gan y grŵp bresenoldeb rhagorol ac maent yn cefnogi'r gymuned trwy ddarparu nifer o ddi-gwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys triapiau dydd i Weston a diwrnod hwyl y Pasg i deuluoedd ar St Luke's Avenue. Hoffai'r grŵp ddenu mwy o aelodau, yn enwedig tenantiaid ifanc a theuluoedd sy'n byw yn yr ardal.</p> <p>Mae'r grŵp STAR yn cwrrd yn y POD sydd yng nghanol y gymuned. Yn ddiweddar, sicrhodd y Tîm Buddsoddi Cymunedol gyllid gon ddatblygiadau newydd yn yr ardal i brynu POD newydd i alluogi darparu mwy o weithgareddau cymunedol yn yr ardal.</p> <p>Mae gan gynllun cysgodol Tŷ Redlands hefyd fwrdd preswylwyr gweithredol sy'n cynnwys y Tŷ a Redland's Avenue. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar wella a darparu gwasanaethau i bobl hŷn sy'n byw yn yr ardal ac mae'n agored i unrhyw bobl hŷn sy'n byw yn yr ardal hon ym Mhenarth.</p> <p>Os oes unrhyw ardaloedd eraill ym Mhenarth a hoffai ddatblygu fforymau preswylwyr, byddai'r Tîm Rheoli Cymdogaeth yn hapus i hwyluso hyn.</p>
<p>Trosedd o niwsans</p>	<p>Cofnodwyd lefelau troseddu cyfartalog mewn perthynas â byrgleriaeth, troseddau treisgar, lladrad, difrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p>
<p>Iechyd a llesiant</p>	<p>Mae iechyd 23% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd y Fro.</p> <p>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o gymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro.</p> <p>"Awyr lân ac iach, ac ychydig o draffig"</p>
<p>Pobl ifanc</p>	<p>Mae cyfran uwch o bobl ifanc yn byw yn yr ardal na chyfartaledd y Fro, ar 21%; fodd bynnag, ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer pobl ifanc trwy glybiau ieuentid a grwpiau cymdeithasol.</p>
<p>Addysg</p>	<p>Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol yn gyfartalog yn fras o'u cymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.</p> <p>Mae cyfraddau absenoldeb disgyblion is yn yr ysgol gynradd (5.6%), ond yn uwch yn yr ysgol uwchradd (8.3%), yn erbyn cyfartaledd y Fro o 6% ac 8%.</p>
<p>Mannau agored</p>	<p>Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio, a nifer o ddarnau llai o fannau gwyrdd neu fannau parcio yn yr ardal.</p>
<p>Graddfeydd yr ystad</p>	<p>Graddiad cyffredinol yr ystad yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ystad.</p>

Gwybodaeth leol:

Archwilio eich ystad

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

Barn/sylwadau preswylwyr	
Mae'r ardal gyfan yn elwa o gymunedau sefydledig a throsiant isel o eiddo.	Mae amllder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo. Ardal y garejys - ymddangosiad gwael, llawer o leoedd gwag - allwn ni wneud rhywbeth yn wahanol?
Mae ymddangosiad yr ardal yn dda gyda llawer o fannau gwyrdd. Mae sawl coeden yn y gymdogaeth mewn cyflwr gwael ac mae darnau o dir a ddefnyddir y gellid eu troi at well defnydd.	Mae parcio yn broblem mewn rhai rhannau o'r gymdogaeth yn bennaf oherwydd lled rhai ffyrdd a'r diffyg lle sydd ar gael.
Mae ymddangosiad cyffredinol eiddo yn yr ardal yn dda.	Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael.
Cwblhawyd y gwaith WHQS ar yr holl eiddo yn yr ardal ac maent mewn cyflwr da iawn.	Hefyd, ceir rhai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael.
Cynhaliodd y Tim Cymdogaeth fore coffi i drafod gyda'r preswylwyr y posibilrwydd o ddatblygu grŵp preswylwyr. Mynychodd sawl preswlydd ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan ymhellach.	Nid yw pobl yn ein hadnabod yn ddigon da/ dim cyswllt cryf. Angen gwybod mwy am ein tenantiaid/ demograffeg.

Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Cynnal ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth
- Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrando ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain

Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal.
- Adeiladu cysylltiadau cryf â chymdogion a'r gymuned leol.
- Sicrhau bod atygreiriadau a chynnal a chadw'n cael eu gwneud i safon uchel ac yn amserol

Camau Gweithredu

Beth?	Pam?	Pryd?
Materion amgylcheddol		
Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth.	Gwella ymddangosiad y gymdogaeth	O fewn 12 mis
Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystad i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, ffensio ayb.	Gwella diogelwch cymunedol.	O fewn 12 mis
Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol. Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin.	O fewn 6 mis
Ystyried amgáu'r gerddi blaen agored y tu allan i fflatiau i leihau crynhoad o sbwriel.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Mynd i'r afael â phroblemau gyda sbwriel yn yr ardal a chreu storfa biniau.	O fewn 12 mis
Datblygu rhaglen wella ar gyfer y safleoedd garejys i ddod â'r lle yn ôl i ddefnydd.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Datblygu manau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Gwella trefniadau parcio lleol.	O fewn 3 blynedd
Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth cyfleusterau chwarae lleol mewn ymgynghoriad â phreswylwyr.	Datblygu manau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Gwella trefniadau parcio lleol.	O fewn 3 blynedd

Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Gweithio gyda phreswylwyr fflatiau Catherine Mazey i adfywio'r man gwyrdd cymunedol sy'n amgylchynu'r fflatiau.	Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Gwella diogelwch cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol.	O fewn 6 mis
Mewn partneriaeth â gwasanaethau ieuencid, preswylwyr a Buddsoddi Cymunedol yn cynnal project graffeg yn y lôn y tu ôl i St Paul's ar Orsaf Dân.	Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Gwella diogelwch cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.	O fewn 12 mis
Cwblhau archwiliad o'r holl fannau gwyrdd a darnau o dir ar gyfer tai ar yr ystad mewn partneriaeth â thenantiaid i greu cynllun gwella'r amgylchedd ar gyfer yr ardal. Bydd hyn yn cynnwys datblygu'r gerddi cymunedol, cynyddu cyfeusterau parcio yn yr ardal.	Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Cynyddu'r parcio sydd ar gael yn yr ardal. Gwella diogelwch cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Adeiladu cymunedau diogel a chydlynus.	O fewn 12 mis
Gweithio gydag adran Barciau'r Cyngor i adolygu'r gwasanaeth casglu sbwriel presennol a nifer y biniau sbwriel yn yr ardal i weld a ellir gwella hyn. Edrych ar atebion yn y gymuned i gynyddu casglu sbwriel fel cynlluniau cynnwys tenantiaid gan ddefnyddio Bancio Amser.	Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.	O fewn 6 mis
Trosedd a diogelwch		
Cynyddu'r wyladwriaeth ffisegol mewn mannau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) gan weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Bro Ddiogelach	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 3 blynedd
Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 12 mis
Sefydlu gweithgareddau Gwarchod Cymdogaeth i gynyddu lefel gwyladwriaeth yn y gymdogaeth ac felly cynyddu'r teimlad o ddiogelwch a grymuso yn erbyn trosedd, gan gynnwys nodi tenantiaid agored i niwed sydd wedi, neu a allai fod wedi, dioddef trosedd.	Gwella diogelwch cymunedol. Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed.	O fewn 12 mis

Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Beicio a.yb.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.	O fewn 12 mis
Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Cymunedau gweithgar		
Hyrwyddo Bancio Amser a chynyddu nifer o oriau gwirfoddoli tenantiaid.	Datblygu cysylltiadau cymunedol da. Darparu mwy o weithgareddau cymunedol. Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.	O fewn 6 mis
Gweithio gyda'r ddarpariaeth Ieuenctid Leol, preswylwyr a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i redeg nifer o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc o'r POD.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Gwella iechyd a llesiant. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus	O fewn 12 mis
Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol a'r Tîm TGCh i ddatblygu cynllun cynhwysiant digidol yn yr ardal gan ddefnyddio'r POD fel lleoliad.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Rhoi cyngor a chefnogaeth ariannol. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.	O fewn 12 mis



Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Buddsoddi Cymunedol a'r Tîm TGCh i ddatblygu cynllun cynhwysiant digidol yn yr ardal gan ddefnyddio'r POD fel lleoliad.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Rhoi cyngor a chefnogaeth ariannol. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.	O fewn 12 mis
Prynu POD newydd i weithredu fel hyb cymunedol, gan gynnwys darpariaeth dddigidol a lle i gynnal gweithgareddau cymunedol a chyrisiau hyfforddi. Byddai hyn hefyd yn creu lleoliad i staff allu treulio amser yn gweithio ar yr ystad.	Cefnogi gweithgareddau cymunedol. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyflogaeth.	O fewn 6 mis
Cynnal nifer o sesiynau cyngor ariannol a sesiynau Credyd Cynhwysol yn yr ardal i sicrhau bod gan denantiaid fynediad at gyngor priodol.	Rhoi cyngor a chefnogaeth ariannol i denantiaid. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy.	O fewn 6 mis
Hyrwyddo gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant yn yr ardal, gan gynnwys dosbarthu taflenni i eiddo, cynnal sesiynau blasu a phrojectau wedi'u targedu i gynyddu ymgysylltiad.	Darparu cefnogaeth cyflogaeth a hyfforddiant. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. Gwella iechyd a llesiant. Darparu gweithgareddau cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Defnyddio Bancio Amser, recriwtio hyrwyddwyr cymunedol a bloc i hyrwyddo'r ardal leol a chroesawu tenantiaid newydd wrth symud i mewn.	Cefnogaeth gyda chyflogaeth a hyfforddiant. Cynyddu ymgysylltiad cymunedol. Adeiladu tenantiaethau cynaliadwy. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Gweithio gyda'n Tîm Atgyweirio Ymatebol i redeg gwasanaethau adrodd am atgyweiriadau yn y gymuned a chael swyddogion yn mynychu sy'n gwneud atgyweiriadau ar adeg adrodd. Gweithio gydag Atgyweiriadau Ymatebol a Thenantiaid i adolygu sut y gallwn ddatblygu'r gwasanaeth atgyweirio ymhellach i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a thenantiaid yn well.	Cynnal ansawdd cyffredinol y cartref. Sicrhau fod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu cwblhau i safon uchel mewn modd amserol.	O fewn 12 mis

Sut i gysylltu â ni:

Dros y ffôn:

01446 700111

Drwy e-bost:

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

 @valehomes  Cartrefi'r Fro

Yn ysgrifenedig:

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

Drwy'r we:

www.bromorgannwg.gov.uk

Yn bersonol:

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener

